YR ✻ YMOFYNYDD.

Misolyn y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1901. [RHIF 5.

ESGYMUNO A CHRISTIONOGAETH.

BU amser unwaith, pan oedd Pabyddiaeth yn meddu'r gallu, pryd yr oedd esgymuno yn drefn y dydd. Gŵyr y rhai ydynt gyfarwydd a Phabyddiaeth trwy ganrifoedd ei rhodres a'i gallu, mor aml yr hyrddiai ei melldithion a'i hesgymuniadau at bersonau a feiddient droseddu ei deddfau ; ac yn gyffredin, nid digon ganddi oedd eu hesgymuno o gymundeb a'r eglwys yn y byd presenol, ond yr oedd effaith yr esgymuniad i gyrhaedd i'r byd nesaf, os nad edifarhai y troseddwr a llwyr adael ei bechod, a rhoddi i'r eglwys a'i hordinadau ufudd-dod cyflawn.

Pan oedd y bobl mewn anwybodaeth, meddai'r melldithion a'r esgymuniadau hyn ddylanwad nerthol arnynt yn gyffredinol ; a dim ond ambell un yn awr ac eilwaith oedd yn meddu ychydig mwy o wroldeb na'r cyffredin a feiddiai barhau yn ei anufudd-dod. I'r dynion hyn yr ydym ni yn ddyledus heddyw am y rhyddid a fwynhawn.

Yr oeddym bellach yn dechreu gobeithio mai pethau y gorphenol oedd esgymuniadau a melldithion yr Eglwys Babaidd. Darllenem yn awr ac yn y man am felldith yn cael ei hyrddio at un, ac am un arall yn cael ei esgymuno. Ond yr oedd yn amlwg fod yspryd, a meddwl, a theimlad goreu yr oes yn eu herbyn, hyd yn nod yn yr Eglwys Babaidd ei hun, fel yr oeddynt yn disgyn ar y gwrthddrych heb wneud un niwed iddo. Ac y mae amser maith wedi myned heibio bellach er pan yr oeddynt yn creu'r cyffroadau cymdeithasol y mae genym hanes am danynt.

Tybiem mai pethau y gorphenol oedd esgymuniadau, ond adgofiwyd ni gan ddygwyddiad diweddar ein bod yn cyfeiliorni. Nid oes dau fis wedi myned heibio er pan yr esgymunwyd yr Ardalydd Tolstoy o bob cymundeb a'r Eglwys Roegaidd.

Beth yw'r Eglwys Roegaidd ? I bob effaith gellir ei hystyried yn wrthran o'r Eglwys Rufeinig. Ynddi hi y dysgir yr hyn a elwir yn iawnffyddol mewn duwinyddiaeth yn y ffurf mwyaf eithafol. Fel

rheol ei ffydd, dderbynir ganddi, nid yn unig y Beibl, ond hefyd holl draddodiadau yr eglwys. A gŵyr y rhai ydynt gyfarwydd a hanes eglwysig oesau cyntefig y cyfnod Cristionogol beth mae hyn yn olygu : golyga ei bod yn derbyn yr holl athrawiaethau hyny a dyfasant yn gyfochrog a Christionogaeth Iesu Grist, ac a raddol unwyd a hi yn ystod y pum' neu'r chwe' canrif cyntaf. Ffyna'r Eglwys Roegaidd yn Rwssia a gwledydd dwyreiniol eraill Ewrop ; ac er na ellir rhoi nifer ei haelodau yn gywir, eto, bernir eu bod oddeutu can' miliwn. Yn Rwssia hi yw'r grefydd wladwriaethol, a'r Czar yw ei phen.

Pwy yw Tolstoy? Un o lenorion penaf y ganrif, nid yn unig yn Rwssia, ond yn yr holl fyd. Mae, hefyd, yn un o'r ychydig yn Rwssia nad ydynt foddlon ar gyflwr eu gwlad fel y mae, ac a wnant eu goreu i ddwyn i fewn ddiwygiadau. Cred Tolstoy mewn Cristionogaeth, ond yn Nghristionogaeth yr Efengylau y cred, ac nid yn Nghristionogaeth yr Eglwys Roegaidd ; a chred, yn mhellach, fod Cristionogaeth i'w chario allan yn llythyrenol fel y dysgir hi yn yr Efengylau. I Tolstoy, hefyd, mae ei gred mewn Cristionogaeth yn argyhoeddiad byw ; a than ddylanwad yr argyhoeddiad hwn arweinir ef yn aml i ddyweyd rhai pethau celyd am yr Eglwys Roegaidd, ac ar bob adeg a chyfleustra posibl i ddynoethi ei thwyll a'i honiadau disail.

Nis gallai hyn barhau yn hir mewn gwlad fel Rwssia lle mae rhyddid crefyddol yn brin. Felly, nid fod Tolstoy wedi ei esgymuno berodd i ni syndod ond y ffaith ei fod wedi ei oddef cyhyd. Nid yw bod yn ymarhous at hereticiaid erioed wedi bod yn elfen flaenllaw yn nghrefydd Pabyddiaeth, yn yr Eglwys Roegaidd mwy nag yn yr Eglwys Rufeinig. Tueddfryd blaenaf Pabyddiaeth trwy ei holl hanes yw diffodd pob gogwydd yn nghyfeiriad rhydd-ymofyniad. Bu yn gwneud hyn unwaith trwy'r carchar a'r ystanc. Mae wedi ei hamddifadu o'r gallu i wneud hyn bellach ; a'r unig beth all hi wneud yn awr yw hyrddio ei melldithion a'i hesgymuniadau at y troseddwyr, ac nid oes llawer o niwed yn hyn bellach hefyd, a daw yn llai niweidiol yn y man ond cael ychydig tebyg i Tolstoy yn ddigon gwrol i'w herfeiddio.

Llawenychwn ni yn y ffaith fod Tolstoy wedi ei esgymuno, oherwydd, fel y dywedai un yn fuan ar ol hyny, "nid yw efe geiniog gwaeth," a bydd ei esgymuniad yn gyfrwng mwy effeithiol na dim arall i'w ddwyn ef a'i ysgrifeniadau i sylw pobl. Yn Rwssia, mae ei esgymuniad eisoes wedi esgor ar ganlyniadau pwysig, yn y ffurf o derfysgoedd peryglus, diwedd y rhai na ellir eto ei ragweled.

Yspryd hollol anghydweddol ag yspryd y Prophwyd o Nazareth sydd wrth wraidd esgymuniadau, a phob peth arall cyffelyb. Ond yr yspryd hwn sydd wedi nodweddu yr Eglwys Gristionogol trwy holl gwrs ei hanes. Bu eglwysi Rhufain a Groeg unwaith yn llosgi am anufudd-dod : ac y maent o hyd yn esgymuno, fel y gwelwyd. Mae'r Eglwysi Protestanaidd yn fynych yn arddangos yr un yspryd, yn enwedig felly yn eu gwaith yn cauad allan bawb nad allant gyd-

synio a'u syniadau duwinyddol, rhag cydweithio a hwynt mewn gwaith nad oes a fyno syniadau duwinyddol ag ef o gwbl. Nid achwyn oblegid hyn ydym ond nodi allan y ffaith. Er hyny, pan y sylwn mor bell yr anwybyddir y Blaenor gan ei ganlynwyr yn hyn o beth, pair i ni dristwch ; a llawenychwn wrth weled unrhyw arwydd neu arwyddion fod yspryd gwell yn dod i'r orsedd yn ei le.

CARMARTHEN COLLEGE.

By Principal Evans, M.A.

(Continued from the April Number, 1901.)

13. David Peter (1789—92, 1795—1835).

DAVID PETER, born at Aberystwyth on Aug. 5, 1765, and brought up from an early age at New Quay (Card.)[1], was designed by his parents for the Church of England, and partly educated by Davis of Castell-hywel (1782)[2]. After quitting the latter he attached himself to the Independents at Penrhiwgaled, and in Aug. 1783 obtained admission to Rhydygorse, where he studied under Gentleman—at his own expense—until the following Christmas. At this time he apparently abandoned his ministerial plans[3], and for twelve months from Mids. 1784 he kept a school at St. Ismael's (Pem.) ; but presently the old impulses returned, and in Aug. 1786 he re-entered the Academy, becoming one of Mr. Howell's earliest pupils at Swansea, as a foundationer of the Presbyterian Board.

He was in the third year of his course, when Thomas Lloyd, the Classical and Mathematical Tutor, died. The vacant office was

---

[1] His sister Mary, who married an inhabitant of this place, became the mother of (1) Rev. David Peter Davies [1785—1844], student at Carmarthen (1802—6), Unitarian Minister at Belper (1806—37), and Carmarthen (1837—44) ; Author of a History of Derbyshire (1811), &c. ; and (2) Peter Thomas Davies [1798—1872], student at Carmarthen (1819—23), Unitarian Minister at Belper (—1827), and Newbury (1827—8).

[2] First at Ciliau, and then at Castell-hywel, the summer of 1782 being the date of Mr. Davis's removal, *teste* Tutor Peter.

[3] Possibly for want of funds. The reasons, which Mr. Peter gives for leaving Rhydygorse, seem to be insufficient : " Mr. Gentleman having no assistant tutor at the time, and being on the eve of leaving Wales, I returned home at Christmas." (*Autob. p. 8*).

coveted by more than one of the Swansea students, and there was some difficulty and delay in making a selection; but owing, it is said, to the influence of Dr. Abraham Rees[4], the choice of the Board ultimately fell—in Oct. 1789—on David Peter, who however was not relieved of his obligation to attend the lectures of Mr. Howell during the remainder of the session. Much trouble ensued, Peter's fellow-students being indignant at his being placed in authority over them, and some few of them even refusing to accept instruction from him. His dual capacity, as tutor and student, probably added to the difficulties of the situation, and three of the recalcitrants had to be expelled[5] before order could be restored. Peter held his Tutorship until Mids. 1792, when he removed to Carmarthen to take charge of the Lammas Street Pulpit,[6] vacated during the previous year by Richard Lloyd; becoming at the same time Master of the Free Grammar School (Sir Thomas Powell's foundation),[7]—an office which he retained to the end of his life.[8]

Three and a half years later, after the Academy had been closed for practically twelve months in consequence of the unhappy dissensions already referred to in connection with Mr. Howell, Mr. Peter was re-appointed by the Presbyterian Board,[9] with the Rev. David Davies

---

[4] Dr. Rees, who was an Arian, thought that the appointment of a Unitarian would militate against the usefulness of the Academy. In after years, Lewis Loyd, the banker and millionaire, whose student-period at Swansea was 1785—9, often rallied him on the opposition he had offered to his particular candidature; and it is clear that Dr. Charles Lloyd never forgave the appointment of David Peter, repeated as it was in 1795. The following passage in the *Particulars*—the ferocity of which there is nothing to excuse—must have been aimed directly at the Tutor: "Of all the students of these two years [1785—7], I recollect not more than one who has done the least credit to the institution, and that one has devoted his fine talents long ago to the service of mammon. The rest have either forfeited all claim to esteem, for want of good morals, or are now dragging on a miserable existence in the humblest stations among their brethren." (p. 59).

[5] Two of them were re-instated in the following December.

[6] He was ordained June 8, 1792, but had officiated regularly from Dec. 1791.

[7] *Charity Commissioners' Report (Carmarthen Charities) 1834.* The building in which the school was conducted belonged to Lammas St. Chapel, and stood on the site of the present Sunday-school. During 1796—1840 the College occupied a portion of the same building.

[8] He was succeeded in the Mastership by his nephew, David Peter Davies. In 1857 the school was amalgamated with Queen Elizabeth's foundation, and both are now merged in the Carmarthen County School.

[9] At Christmas 1795; but the Academy was not re-opened until Feb. 7, 1796. The Sermon preached by Mr. Peter at the opening will be found in his printed memoirs.

of Llanybri as his colleague,[10] the latter having charge of the theological department; and to meet their convenience, the institution was restored to Carmarthen, where it has flourished ever since without interruption. Mr. Peter presided over the Presbyterian College —as the Academy was now called—for nearly forty years,—until Mids. 1835,[11] his ministerial pupils during that period amounting to more than a hundred and fifty[12]; and though he cannot be credited with unusual powers as a scholar or teacher, he attained a considerable reputation, to which his success as a preacher greatly contributed.

He has himself left on record that the ministry was his chief end from the first. When he undertook the pastorate of the Lammas St. Congregation, "the cause had been on the decline for years," and there were only forty members[13]; before his death there were more than six hundred; and he twice rebuilt and enlarged the chapel.[14] Meanwhile the congregation had ceased to be regarded as Presbyterian.[15] Failing health compelled Mr. Peter to abandon his pulpit ministrations soon after his retirement from the College; and on May 4, 1837 he died. He was twice married, his second wife being the sister of General Sir William Nott, of Indian fame. He left no issue.

Mr. Peter was an Independent and a Trinitarian. He has been charged with intolerance[16] towards Unitarians in his administration of

---

[10] David Davies [1764—1828], whose student-period—as a foundationer of the Presbyterian Board—was 1783—5, acted as Tutor up to Mids. 1813. The statement that his duties were performed by a deputy during 1811—13 is a misconception, due to clerical errors in the Account-books of the Board. Deputy-Tutor Timothy Davis (*Jeremy* p. 73) had no existence.

[11] For one session, 1813—14, he was sole Tutor. During 1814—35 he occupied the Theological chair.

One of his later colleagues—overlooked by *Jeremy*—was the Rev. John Thomas [1784—1861], a Carmarthen student (1809—13), who was for nearly a quarter of a century minister at Pantydefaid. He acted as Classical Tutor during the session 1830—1 and again during the first half of 1833.

[12] In addition to these, he always had Divinity pupils at his school, many of whom went into the ministry without entering the College. The distinction between School and College is often overlooked in *Rees and Thomas's Hanes* and the *Congregational Year Book*.

[13] i.e., communicants; the congregation, including 'hearers', numbered about 150.

[14] In 1802 and 1826.

[15] The Unitarian congregation established at Dark Gate in 1814 no doubt absorbed the 'Presbyterian' element, and may be regarded as a continuation of Richard Lloyd's church.

[16] The imputation of intolerance rests, it is believed, on the sole authority of Dr. Charles Lloyd, who formulates his charges in *Particulars*, c. XIII., *Mon. Mag.* 1813, pt.i, p. 411, *Mon. Rep.* 1814, p. 465, and another publication referred to in the *Particulars* (p. 148) which the present writer has not

the College, but it is probably a misconception. His temperament was indeed warm and excitable, and may have betrayed him, on provocation, into occasional indiscretions; but there was in him nothing of settled prejudice. In the eyes of many of his orthodox contemporaries moderation was his foible.

Mr. Peter published: 1. A Welsh translation of Palmer's "Protestant Dissenter's Catechism" (1803). 2. Hanes Crefydd yn Nghymru (1816; 2nd ed. 1851); 3. Sermons (singly).

The Memoir of his Life and Labours, compiled by the Rev. S. H. Lewis of Glastonbury (*Longmans, 1846*), has a good portrait of the Tutor and one chapter of autobiography; but is otherwise a work of little value.

DEDDF CYFNEWIDIAD.

Os mai deddf bywyd ydyw deddf cyfnewidiad; os oes gan bob blaguryn ei wraidd mewn dail syrthiedig; os ydyw cariad, meddwl, a gobaith yn barod i wywo o dan oleuni rhy danbaid; os gofynant y gwlith a'r tywyllwch er mwyn eu hadfywiad; os mai wrth golli yr arosol yr enillwn ni y tragywyddol,—na fydded i ni, ynte, mwyach gilio yn ofnus oddiwrth drallod, ac ochneidio am orphwysfa, ond yn hytrach roddi croesaw siriol i gyfnewidiadau, ac ymostwng i wneyd cyfeillion o golled a marwolaeth.—JAMES MARTINEAU.

---

been able to discover: affirming that two candidates were rejected in 1801, and two more in 1802, because they were Unitarians. An apparently unprejudiced reply, which relieves Mr. Peter of the charge of anything like persecution, will be found in *Mon. Mag.* 1813, pt. ii, p. 119; and it seems highly probable that when the Tutor declined to recommend for admission the young convert on whose case Dr. Lloyd chiefly dwells, and who was admittedly "not free from infirmity of temper" (*Inquirer*, 1869, p. 291), he did so, not because the candidate was a Unitarian, but because he had personally affronted him and was likely to disturb the College peace. The remaining cases arose after Dr. Charles Lloyd had appeared on the scene; and if injustice was done, the responsibility is probably to be divided.

The four pupils of Dr. Charles Lloyd, who are said to have to have been rejected by Mr. Peter in 1801 and 1802, were no doubt the following:

1801. Dr. Henry Davies [1782—1848], of Gloucester, who seems to have entered the Exeter Academy at Mids. 1801.

John Lewis [1781—1805], who entered M. N. C. (Manchester) at Mids. 1802, on the foundation of the Presbyterian Board, and died before completing his course.

1802. Dr. Daniel Jones [1782—1866] of Gravesend, who entered M. N. C. (York) at Mids. 1803, on the foundation of the Presbyterian Board.

John James [1779—1864] of Gellionen, who seems to have entered the Exeter Academy at Mids. 1802. (Cf. *Ymof.* 1890, pp. 217, 245, the statement on p. 196 being apparently an error of inference).

ENILLION Y GANRIF.

Gan y Parch. E. D. Priestley Evans, Kidderminster.

II.—Enillion Materol.

Wrth geisio mae dynion wedi cael erioed. Maent wedi chwilio holl gonglau y cydfyd, a thrwy chwilio wedi bod yn alluog, nid yn unig i ddarganfod, ond hefyd i ddyfeisio. Adgofir ni am eiriau y Salmydd (18 : 15)—"Seiliau y byd a ddinoethwyd," ond nid gan gerydd yr Arglwydd, ond gan ymdrech a diwydrwydd dyn. Mae enillion y ganrif wedi rhoddi

Cyfeiriad Newydd Hollol

i'n bywyd ni. Mae wedi bod yn wahanol i bob canrif arall, ac i'r holl ganrifoedd gyda'u gilydd. Nid yw wedi bod fel y bymthegfed ganrif yn adnewyddiad o'r gorphenol—yn adenedigaeth bywyd a gwybodaeth yr oesau o'r blaen; ond mae wedi rhoddi bodolaeth i wybodaeth newydd, syniadau newydd, ac i elfenau bywyd newydd. Cymerer, er engraifft, y dull o deithio. Dywedai Huxley unwaith fod y

Duc Wellington

yn teithio o un man i'r llall yn ystod ei ryfeloedd yn gymhwys fel oedd Achilles yn teithio i Gaerdroia ryw fil o flynyddoedd cyn Crist. Ond mawr ydyw'r cyfnewidiad oddiar pan yr agorwyd y Reilffordd gyntaf yn 1825, rhwng Stockton a Darlington; ac yn 1830, rhwng Lerpwl a Manchester. Mae agwedd y wlad hon, yn gystal a gwledydd eraill, wedi ei chyfnewid yn hollol gan ddyfais yr agerbeiriant. Yr oedd yn beth newydd hollol, na freuddwydiodd neb am dano haner can mlynedd cyn hyny. Cyn i reilffyrdd gael eu dyfeisio nid oedd un cyfnewidiad wedi cymeryd lle yn y dulliau o deithio trwy yr holl gyfnodau hanesyddol. Gyda'r ganrif ddiweddaf daeth cynllun newydd i fewn, dyfais hollol newydd sydd yn sicrhau rhagor o gyflymder, yn cludo llwythi trymach o lawer, a hyny yn amserol ac yn ddiogel. Yn 1807, cymhwyswyd yr un egwyddor at longau, gan Fulton, a dechreuodd yr

Agerlong Gyntaf

i deithio ar yr afon Hudson, rhwng New York ac Albany yn yr Unol Dalaethau. Ond yn 1838, y gwnaed y fordaith gyntaf dros y Werydd yn y *Great Western*, ac oddiar hyny mae agerlongau y Werydd, a phob môr arall wedi eu lluosogi wrth y miloedd. Yn ychwanegol at y chwyldroad sydd wedi ei ddwyn oddiamgylch gan yr agerbeiriant, rhaid crybwyll y ddeurod (*bicycle*) a'r *motor car*. Mae y ddeurod, fel dyfais, braidd wedi ei berffeithio erbyn hyn, ac yn beiriant defnyddiol dros ben er mwyn gwaith yn gystal ag er difyrwch; ac yn ol pob tebygolrwydd daw y *motor car* heb fod yn faith, gyda'r gwelliantau parhaus a gymhwysir ato, i gymeryd ei le yn arosol wrth ochr y ddeurod, y gerbydres, a'r *electric trams*. Yr ydym wedi bod yn siarad am gludiad mater o un man i'r llall. Gellir dweyd yr un peth am

Drosglwyddiad Meddyliau.

Yma eto mae dulliau hollol newydd wedi eu dyfeisio. Yr hen, a'r unig ffordd, am gyfnodau lawer, i drosglwyddo meddyliau oedd trwy ysgrifenu ac argraffu. Wrth gwrs, mae

y rhai hyn yn parhau ; ond mae offerynau cywrain, megis y *telegraph* a'r *telephone*, wedi eu dyfeisio ar gyfer amcanion neillduol ; ac yn ddiweddar mae negeseuau yn cael eu cludo heb wifrau, a hyny trwy ganol creigiau a mynyddoedd cedyrn, a chymer y trosglwyddiad le mor gyflym a thros bellderau mor fawr, fel nad oedd yn bosibl i ddychymygu fod y fath beth yn gyrhaeddadwy yn yr oesau o'r blaen.

Mae y rhan fwyaf o'n peirianau wedi eu dyfeisio yn y ddeunawfed ganrif, ond wedi eu gwella a'u dadblygu yn y ganrif ddiweddaf, megis peirianau i drin gwlan, cotwm, meteloedd, &c. Ond mae rhai dyfeisiau newydd hollol wedi dyfod i'r golwg, megis y peiriant gwnio, y *type-writer*, a pheirianau lladd gwair, medi, a rhwymo,—yr oll yn rhagori cymaint ar yr hen ddulliau i wneud eu gwahanol oruchwylion. Wrth gwrs mae dyfeisiau eraill dirif ellid eu crybwyll, megis y *power-loom*, *machine guns*, llongau haiarn, &c., tra mae peirianau yn cael eu defnyddio i wneud oriaduron, *screws*, hoelion, i argraffu, &c., ac yn cael eu cymhwyso at fil a mwy o amcanion. Ond nid yw y rhai hyn yn gwisgo nodweddion gwahaniaethol ; nid ydynt ond dadblygiadau pellach o beirianau adnabyddus o'r blaen.

Tan a Goleuni.

Mae cyfeiriad newydd hollol wedi ei gymeryd yn y ddau beth pwysig hyn. Trwy yr holl ganrifoedd, er mwyn gwneud tân, defnyddiai pawb braidd yr un cynllun, hyny yw, rhwbio dau ddarn o bren wrth eu gilydd, fel mae anwariaid yn gwneud, neu trwy daro careg dân, a dal y gwreichion ar ddefnydd wedi ei barotoi i'r pwrpas. Ond yn 1827, darfu i John Walker, Fferyllydd yn Stockton-on-Tees, ddyfeisio *matches*, ac erbyn 1840, yr oeddynt yn cael eu gwasgar dros yr holl fyd, ac yn cario eu defnyddioldeb i gartrefleoedd gwar ac anwar. I fyny hyd at ddechreu y ganrif ddiweddaf, yr unig ffyrdd i gael goleu mewn tywyllwch oedd trwy fflaglau, lampau, a chanwyllau. Ni ddaeth nwy (*gas*) i arferiad hyd y flwyddyn 1813, pan y goleuwyd pont Westminster, yn Llundain. Dim ond yn ddiweddar yn y ganrif y cymhwyswyd egwyddor hollol newydd at y gwasanaeth hwn trwy gyfrwng y goleuni trydanol (*electric light*)—egwyddor ag mae dadblygiadau helaeth yn aros o'i blaen, a'r hon sydd wedi agor yn barod feusydd newydd o ddarganfyddiad gwyddorol. Darganfyddiad ag mae pob gwyddor a phob canghen o ymchwiliad braidd yn ddyledus iddo ydyw y gelfyddyd o dynu darluniau—

Photography.

Yr oedd llawer cynyg wedi ei wneud i ddefnyddio'r egwyddor sydd yn gorwedd wrth sylfaen y gelfyddyd hon ; ond nid oedd un wedi bod yn llwyddianus hyd nes y perffeithiodd y Ffrancwr, Daguerre, ei ddyfais yn 1839, ac oddiar hyny mae y gelfyddyd wedi myned trwy gyfres o ddadblygiadau, megis pelydrau Röntgen, &c., sydd wedi ei chodi i'r perffeithrwydd uwchaf, ac wedi ei gwneud yn un o gymhwysiadau mwyaf prydferth a gwasanaethgar y ganrif ddiweddaf. Ac mae math arall o *photography* wedi ei ddyfeisio nad oes ganddi ddim i'w wneud a phelydrau a thonau goleuni, ond a thonau swn, ac yr ydym yn awr yn gallu tynu darluniau, nid yn unig o ffurfiau allanol, ond o seiniau. Gallwn yn awr gadw seiniau yn gystal a ffurf a phrydweddau ein cyfaill, a'u trosglwyddo i lawr i genhedlaethau y dyfodol trwy y

Phonograph,

dyfais ryfeddol Edison, sydd yn sicr o gymeryd safle uchel yn mhlith darganfyddiadau y ganrif. I ddyfod at ddyfeisiau hollol wahanol yr ydym o dan ddyled neillduol i'r rhai ydynt wedi bod yn llwyddianus i ddyfeisio moddion i leddfu poen ac i ddiwygio celfyddyd y meddyg. Dechreuwyd defnyddio

ANAESTHETICS

yn 1846, o dan y ffurf o *ether* ; ac yn 1848, cymerodd Syr James Simpson y cam pwysig yn ngwyneb llawer o wrthwynebiad i fabwysiadu *chloroform* yn ngwaith y llaw-feddyg. Mae wedi bod yn foddion effeithiol i leddfu poenau corfforol, ac i wneud celfyddyd y meddyg yn fwy o wasanaeth i ddynoliaeth nag y bu erioed o'r blaen. Gellir dweyd yr un peth am y diwygiad a wnaed gan y proffeswr, yn awr, Arglwydd Lister, yn 1865, trwy y driniaeth *antiseptic*, triniaeth sydd yn gwneud gwellhad clwyfau dyfnion ac aelodau toredig, mor rhydd oddiwrth berygl mewn cymhariaeth i'r hyn oedd o'r blaen. Yr ydym wedi crybwyll ddeuddeg neu ragor o ddarganfyddiadau a dyfeisiau hollol newydd fel rhai o enillion y ganrif. Os gofynwn i ni ein hunain, a oes rhywbeth yn y ganrif o'r blaen a all sefyll ar yr un tir a'r rhai hyn, mae yn amheus a oes yna un. Cafodd yr ager-beiriant ei ddadblygu yn helaeth yn y ddeunawfed ganrif, ond yr oedd ei egwyddor yn adnabyddus yn yr ail-ganrif-ar-bymtheg. Yr unig ddarganfyddiad o bwys yn y ganrif hono oedd y *telescope* ; yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg nid oes un ddyfais o'r radd flaenaf ; yn y bymthegfed ganrif mae yr argraffwasg ; yn y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg mae cwmpawd y morwr ; ac wed'yn nid oes dim am ganrifoedd lawer hyd nes y byddom yn myned yn ol i'r gorphenol pell i edrych am ddechreuad y wyddor, y gelfyddyd o ysgrifenu, ac elfenau rhif a mesur. Cawn ynte ryw chwech dyfais o'r radd flaenaf yn yr holl gyfnodau blaenorol i'w cymharu a dwsin yn yr un ganrif hon, ac mae'r dwsin yn bethau hollol newydd ar yr ochr ymarferol.

Dywedodd Arglwydd Kelvin er ys ychydig yn ol nad oedd dim yn hanes gwyddor mor ddyddorol ag hanes dadblygiadau trydan a *magnetism* yn y ganrif ddiweddaf, y ganrif fwyaf rhyfeddol o'r oll oedd wedi ei rhagflaenu. Nis gellid cymharu un o'r rhai hyny a'r ganrif sydd newydd derfynu, ac yr oedd gwaith y peirianydd wedi bod braidd mor fawr ag eiddo'r darganfyddwr. Rhyfedd yn wir yw cyflawniadau y ganrif wedi bod, ac mae y rhai hyn wedi dwyn gyda hwy enillion materol dirif, er budd, a chysur, a dyrchafiad i ddyn.

DIFATERWCH AC ANGHREDINIAETH.

GAN Y PARCH. L. WILLIAMS, RHYDYGWIN.

Y mae difaterwch ac anghrediniaeth yn gwestiwn o achos ac effaith. Y mae anghrediniaeth yn cynyrchu difaterwch. Nis dichon neb gymeryd dyddordeb yn yr hyn nad oes ganddo un sicrwydd am dano. Nid yw yn debyg y gwnawn ni wrthod yr hyn sydd hyfryd a sicr er mwyn yr hyn nad oes genym un profiad na gwybodaeth o hono. Os ydym ni yn amheu y gwirionedd am Dduw nis gallwn ei garu, ac os ydym yn anghredu gwirioneddau yr Efengyl, y mae ein hanghrediniaeth yn ein hamddifadu o'r cymhellion cryfaf i ochelyd a gorchfygu peryglon moesol y byd. Prif achos anghrediniaeth ydyw yr anghysondeb welir mor fynych rhwng proffes ac ymarweddiad. Pan y mae y rhai sydd yn pro-

ffesu eu hunain yn ddysgybl'on i'r Iesu yn arddangos ysbryd hollol wahanol iddo ; yn pleidio ei addysgiadau mewn geiriau, ond yn anufuddhau iddynt mewn gweithredoedd ; yn ffyddlon i ordinhadau crefydd, ond yn ymarfer a gweithredoedd anghrefyddol ; yn amlygu sel a brwdfrydedd dros achos y deyrnas, ond yn cydymffurfio a'r byd, ai rhyfedd fod y fath anghysonderau yn arwain y byd i dybio nad yw y rhai sydd yn proffesu crefydd yn wir gredinwyr ynddi. Tybiwch fod yna dad i deulu, yr hwn sydd yn aelod mewn eglwys, yn proffesu y Grefydd Gristionogol, ac yn cymeryd rhan yn ngwaith yr eglwys, ond eto ddim yn amlygu un brwdfrydedd crefyddol. Mae e' yn ddifrifol gyda phethau eraill, yn dwyn mawr sel yn y byd gwleidyddol a masnachol, yn ymdrechu ei oreu i hyrwyddo llwyddiant ei fusnes, ac i gasglu cyfoeth, ond yn ddifater yn nghylch moesoldeb ei gymeriad, a meithriniad ei natur ysbrydol, ai ni feddyliai ei blant ei fod yn ystyried pethau y byd hwn yn bwysicach na'r hyn a broffesa gredu sydd bwysicaf? Ai ni chanfyddant nad yw e' yn wirioneddol yn credu yr hyn a broffesa? Ac os yw y rhai sydd yn cymeryd arnynt i fod yn bleidwyr crefydd yn fwy selog dros hunan-les na sefydliad teyrnas yr Arglwydd, dros allanolion crefydd na chrefydd ei hunan, dros seremoniau ac ymddangosiad sancteiddiol na thros sancteiddrwydd a daioni, ai ni fydd i hyn arwain y rhai sydd tu allan i'r eglwys i'r casgliad mai yn mhethau y byd hwn y creda dynion yn fwy nag yn hanfod crefydd, a pheri iddynt i wrthod crefydd yn gyfangwbl?

Prif achos difaterwch ydyw absenoldeb ymdeimlad o Dduw yn y galon. Os gofynir, "Pa fodd y creda dynion yn yr hwn ni chlywsant am dano?" Gellir gofyn hefyd, "Pa fodd y medda dynion ymdeimlad o fodolaeth yr Hwn a glywsant am dano, ond yr hwn ni chredant ynddo?" Difaterwch ydyw absenoldeb ymdeimlad o Dduw, nid gelyniaeth a chasineb tuag ato. Mae difaterwch mewn perthynas i grefydd yn amlygu ei hun mewn diffyg dyddordeb yn hawliau crefydd ; mewn diffyg awydd am y lles a rydd, ac mewn diffyg ofn o'r canlyniad sydd o'i hesgeuluso. Nid yw yr hwn sydd ddifater yn gwadu dim, ond yn proffesu anwybodaeth. *Agnostic* moesol ydyw. Nid yw yn mynwesu teimladau gelyniaethus tuag at Dduw ; nid yw yn anwybyddu cydwybod nac yn gwadu y farn a fydd, ond yn ddifater yn eu cylch. Mae yna le i ofni fod llawer felly tu fewn i'r eglwys. Mae eu syniadau parthed i grefydd yn rhy dywyll ac amhenodol i ddeffroi ymchwiliad gonest am y gwirionedd, ac i gyffroi ymgais dros lwyddiant yr egwyddorion hyny a gynyrcha fywyd pur a difeius. Gwrandawant ar bregethau, mynychant y gwasanaeth, cymerant ran yn ngwaith yr eglwys, ond nid oes ganddynt ddyddordeb dwfn yn yr hyn a broffesant ; mae ganddynt enw eu bod yn fyw, ond marw ydynt ; ac yn y sefyllfa hon y maent yn agored i demtasiynau, yn erbyn y rhai, ffydd yn Nuw yw yr unig ddiogelwch. Mae yna ddylanwadau eraill sydd o gynorthwy i wrthwynebu profedigaethau. Mae i'r hyfforddiant dderbynia dyn yn gynar gartref pan yn blentyn, yr addysg a'r arferion da a ddysgir iddo, eu dylanwad. Fe ddywedodd rhywun "ei bod hi yn anmhosibl i ddyn fyned y tu allan i gysgod *mantelpiece* yr aelwyd y ganwyd ef." Y meddwl yw y bydd dylanwad yr aelwyd yn canlyn dyn i bob man. Felly gwelwn fod gan rieni gyfleusdra i wneud argraffiadau ar feddwl eu plant na ddileir byth. Ond os na fydd yr addysg hon wedi ei seilio ar ffydd yn Nuw ac ystyriaeth o ddyledswydd i ufuddhau i'w gyfreithiau, y mae yna berygl y bydd i flysiau llygredig a chwantau cnawdol, ac awydd am bleser a mwyniant, ymchwyddo yn genllif, a chario o'i flaen bob argae llai cadarn.

Mae y galon wedi ei gwneud i Dduw. Os nad ydyw ef yn ei llanw bydd i'r byd wneud hyny. Dywedir fod "Natur yn cashau pob gwagle.'

Mae nwy gwenwynllyd yn sicr o ffeindio ei ffordd i bob gwagle. Mae yn rhaid i'r galon gael ei llenwi ag Ysbryd Duw i atal dyfodiad ysbryd drwg iddi. Nid ydyw perthyn i grefydd mewn enw yn ddigon i wrthwynebu a gorchfygu drwg. "Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd." Ofni yr Arglwydd yn wirioneddol ydyw teimlo yn sicr "ei fod yn wobrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef," ei fod bob amser yn bresenol, yn gwylied, ac yn cofnodi ein gweithredoedd yn llyfr y bywyd, er gwobrwyo y cyfiawn a chosbi y drygionus; ei fod yn Dad i ni, awdurdod yr hwn ddylai lywodraethu, a chariad yr hwn ddylai gymhell; hon yw'r ffydd sydd yn gorchfygu'r byd; hwn yw ofn yr Arglwydd sydd yn ddechreuad doethineb, y ddoethineb sydd yn anog dynion i geisio cyfiawnder, ac i barhau yn gwneuthur daioni. Yr ofn hwn ydyw yr unig ddiogelwch sicr rhag hudoliaeth a chyfaredd pechod. Y mae yn ffynon o fywyd mewn dyn yn tarddu i fyny bob amser ac o dan bob amgylchiad, ac yn atalfa ar ffordd ffrydiau gwenwynllyd pechod ac anghyfiawnder i ymlifo dros faes ei fywyd. Y mae tangnefedd Duw sydd uwchlaw pob deall, ymdeimlad mewnol o'i bresenoldeb, ufudd-dod ac ymostyngiad i'w ewyllys, yn cadw y galon rhag gwahodd meddyliau drwg, na chwenych pleserau anfoesol.

Felly, gofaled y rhai sydd yn ymofidio yn herwydd yr anfoesoldeb sydd yn bodoli rhag syrthio i ddifaterwch a chysgadrwydd crefyddol. Mae proffesu crefydd mewn credo ac anufuddhau iddi mewn ymarferiad yn gwneud mwy i droi eraill oddiwrth y gwirionedd na'r rhai sydd yn anghrefyddwyr adnabyddus. Mae eglwys anghyson a'i phroffes yn fwy o elyn i grefydd na'r byd halogedig ac annuwiol.

I symio i fyny ein rhesymau, y mae anghrediniaeth yn rhwystr i frwdfrydedd a gweithgarwch crefyddol ac yn achosi difaterwch. Y mae difaterwch gyda chrefydd yn gosod y galon yn agored i ymosodiadau pechod. Ar y llaw arall, y mae difaterwch proffeswyr crefydd a'r anghysondeb rhwng y gwirioneddau a broffesant a'u hymarferiadau, yn profi eu hanghrediniaeth hwy eu hunain, ac yn achos i feithrin anghrediniaeth mewn eraill, ac i ychwanegu difaterwch. Felly y mae anghrediniaeth a difaterwch yn yr eglwys yn tueddu i ychwanegu peryglon y byd. Cariad tuag at Dduw, ac ymgyflwyniad trylwyr i'w wasanaeth yw yr unig ddiogelwch effeithiol yn erbyn y byd, y cnawd, a'r diafol.

YN EISIEU.--DIWYGIAD NEWYDD.

Gan y Parch. W. Tudor Jones, F.R.G.S., Abertawe.

Ceisiais sylwi yn rhifyn Ionawr mai hereticiaid ydyw cychwynwyr pob diwygiad yn y byd meddyliol, yn ogystal ag yn y byd moesol ac ysbrydol. Nid yw ond naturiol disgwyl iddynt gyfarfod a gwrthwynebiad, ond try pob gwrthwynebiad yn ysbrydoliaeth iddynt i fyned yn mlaen er dwyn oddiamgylch foreu mwy braf ar bethau i ddynoliaeth. Ond nid yw'r ffaith fod genym hereticiaid yn symud ymaith ein cyfrifoldeb ni, y dynion cyffredin, ond yn hytrach yn gosod cyfrifoldeb newydd ar ein

hysgwyddau i'w cynorthwyo i daflu'r goleuni i bob cyfeiriad. Yn mha le, gan hyny, y dyddiau hyn, mae eisiau taflu goleuni? Yn mha le mae eisiau diwygiad newydd? Mae eisiau

Diwygiad yn y Pwlpud.

Trwy ddweyd hyn goddefer i ni sylwi, mai nid diffyg gallu ydyw diffyg mawr y pwlpud yn Nghymru heddyw. Mae'r pregethwr yn alluog y *tuallan* i'r pwlpud. Ewch i'w lyfrgell, a gwelwch ei fod yn ddarllenydd manwl o'r llyfrau goreu mewn duwinyddiaeth ac athroniaeth. Gwelir mewn ugeiniau o lyfrgelloedd yn Nghymru lyfrau megys gweithiau Kant, Hegel, Lotze, a Thomas Hill Green, yn nghyd a'r llyfrau diweddaraf, megys, Wendt, Beyschlag, Martineau, Caird, ac un o'r geiriaduron newydd ar y Beibl. Dywedir wrthym gan lyfrwerthwr ei fod wedi gwerthu dros 200 o gopiau o lyfr Deon Sabatier, *Outlines of a Philosophy of Religion*, yn Abertawe yn unig. Dengys hyn i ni fod syched ar y pregethwr am syniadau duwinyddol sydd yn fwy cydweddol a gwybodaeth y dydd. Erbyn heddyw mae'r llwch yn drwchus ar dduwinyddiaeth Hodge, ac fel y dywedodd un o weinidogion mwyaf blaenllaw y Methodistiaid yn moreu ei weinidogaeth, "Yr ydym wedi bod yn yfed gormod o botes Hodge, a thyna y rheswm ein bod yn dduwinyddol sâl." Erbyn heddyw nid yfa'r pregethwr ef ei hun; ond yn Nghymru rhaid dweyd ei fod yn ei roddi yn frecwast a swper i'w gynulleidfa bob Sabbath. Onid oes eisiau diwygiad yn hyn? Yr oll ydym yn ofyn i'r pwlpud ydyw i'r bobl gael

Yr un Bwyd a'r Pregethwr.

Nid yw hyn ond teg. Os yw'r pregethwr yn credu'n gydwybodol, er engraifft, fod y Beibl a chrefydd wedi tyfu fel pob peth arall ai nid teg ydyw i'r bobl gael gwybod y gwir am hyn? Ai nid ydyw yn rhy ddiweddar o'r dydd i gau drws gwirioneedd yn ngwyneb dynion meddylgar ein gwlad? Wn i ddim; ond gwn y dylai fod yn rhy ddiweddar. Onid ydyw'r dydd wedi gwawrio y dylai drws y pwlpud fod mor agored fel y gall holl natur dyn, ac nid rhan o honi, gael lle i ddadblygu a thyfu?

Ond dywedir wrthym y byddai'r diwygiad wedi d'od cyn hyn yn y pwlpud oni bai am swyddogion eglwysi. Ni oddefir i'r pregethwr ddweyd llawer o bethau a greda sydd yn wir ac yn angenrheidiol i'w gwybod gan ddynion. Ni raid i mi fyned yn mhell o'r lle yr ysgrifenaf er mwyn gweled fod hyn yn wir. Os dywed y pregethwr, er engraifft, fod yr Hen Destament yn ddadguddiad graddol o Dduw i ddyn; os dywed fod sail gwir grefydd, nid mewn llyfr, ond yn nghalon dyn; os dywed fod ystyr uwch i ymgnawdoliad Crist na chredu yn llythyrenol wyrthiau a chwedlau prydferth a barddonol am dano, dywed y swyddogion, "Yr ydym wedi cael digon o beth fel yna. Yr ydym wedi blino arno." Hyn yw ystad pethau yn Nghymru i raddau helaeth iawn heddyw. Pwy, gan hyny, ddywed nad oes

Eisiau Diwygiad Newydd?

Mae'r cyfrifoldeb yn gorphwys wrth ddrws y blaenoriaid, y rhai a ddewisir, fel aelodau Ty'r Arglwyddi, am eu hoes. A pob blaenor yn Nghymru i'r nefoedd o'r "Set Fawr," ond nid anhawdd ydyw credu y bydd ei sedd yn ddigon bach yno am ei gulni duwinyddol pan yn actio'r *tyrant* tuag at ei weinidog yn nydd y "Set Fawr." Dylai rhyddid y pwlpud fod yn abl i adlewyrchu goleuni mor eang a haul y nefoedd. Mae eisiau diwygiad newydd, ynte, yn y pwlpud, a daw hyn oddiamgylch trwy roddi rhyddid i'r gweinidog i egluro ei genadwri yn ngoleuni'r dydd.

Mae eisiau diwygiad newydd, yn y lle nesaf, yn ein dull o sylwi ar

Faterion Duwinyddol a Chrefyddol.

Mae dynion wedi bod yn sylwi ar

wirionedd o un cyfeiriad yn unig—cyfeiriad y gorphenol, fel maent o'r diwedd wedi myned i wadu fod unrhyw safbwynt arall i sylwi arno. A thyna'r rheswm fod yr eglwys uniongred wedi gwneud mor lleied dros gynydd gwybodaeth athronyddol a chrefyddol y ganrif. Teimlaf yn ddiolchgar iawn i unrhyw ddarllenydd all enwi i mi unrhyw lyfr ysgrifenwyd gan' mlynedd yn ol gan awdwr cul uniongred, sydd wedi bod yn foddion i ddwyn safon pethau mewn ystyr dduwinyddol i'r hyn ydyw heddyw. Yn fy anwybodaeth nis gwn am un. Mwy, yn ddieithriad bron, mae y dynion hyny fu yn foddion i dynu i lawr ganolfur y gwahaniaeth rhwng crefydd a gwybodaeth allan o bob cydymdeimlad a dull a safon yr eglwysi hyny a ymffrostiant yn eu credoau,—Kant a Hegel yn Germani — hereticiaid, Thomas Hill Green a Henry Sidgwick yn Lloegr—allan o'r eglwysi uniongred. Sut mae pethau heddyw? Yn union yr un fath. Nid oes bron yr un proffeswr athroniaeth yn Mhrydain mewn cydymdeimlad a syniadau iawnffyddol yr Eglwys.

Gallaf enwi dros haner dwsin o brif ysgrifenwyr athronyddol y deyrnas hon fagwyd yn awyrgylch yr eglwysi, ond mae pob un o honynt wedi llithro oddiwrth yr hen syniadau wnaethant wasanaeth pwysig yn eu dydd at syniadau uwch a gwell, a mwy gogoneddus am Dduw a'r natur ddynol. Paham mae'r eglwys wedi colli'r oll o'r rhai hyn—dynion megys Bradley, James Ward, Sorley, ac eraill? Ai nid yw'r ffaith hon yn ddigon i beri i bob dyn meddylgar waeddi yn nglustiau blaenoriaid yr eglwysi,

YN EISIAU—DIWYGIAD NEWYDD?

Da genym weled fod amryw o weinidogion ieuainc meddylgar Prydain yn teimlo hyn. Gwelir hyn yn amlwg mewn dau lyfr galluog a ymddangosodd yn ddiweddar yn nghyd ag mewn amryw erthyglau.

Prif awduron y Parch. E. Griffith Jones yn ei "*Ascent Through Christ*" ydyw hereticiaid, megys, Martineau, La Conte, Fiske, Mackenzie, ac eraill. Adeilada Mr. D'Arcy ei lyfr ar lyfr hereticaidd Mr. F. H. Bradley, yr hwn a ddywed bethau ofnadwy am wendid meddyliol a diffyg dewrder meddyliol yr Eglwys. Mae'r ffaith yn siarad yn gryf fod eisiau diwygiad newydd fod Mr. Forsyth yn ceisio "taco" y dduwinyddiaeth newydd ar Hegeliaeth. Tybed, bobl anwyl, ai ni fedr crefydd bur Iesu Grist sefyll yn ei goleuni ei hun? Ai darn o rywbeth arall ydyw? Ie, meddai rhai heddyw, er mwyn taflu dwfr ar y diwygiad newydd sydd yn dechreu cyneu'n fflam yn ein gwlad. Ysbryd, ac nid llythyren, ydyw crefydd Crist —ysbryd a ryddhaodd ddyn oddiwrth gadwynau'r gorphenol, ac a'i galluogodd i wynebu anhawsderau ei ddydd ac a roddodd nerth iddo i orchfygu'r anhawsderau. Dyna ydyw crefydd yr Iesu heddyw eto yn ei gwir sylwedd, ac er mwyn cael gafael yn y sylwedd hwn y codir y cri, Yn eisiau—Diwygiad Newydd. Nid myned yn ol yn llythyrenol at yr oesau a fu, ond cario ysbryd yr Iesu i'r byd ac i Eglwys y dyddiau hyn; tynu i lawr y syniadau celyd am Dduw a dyn; diddymu'r gagendor rhwng crefydd a gwybodaeth; gollwng y cwch yn rhydd i fyned allan i fôr meddwl a theimlad; oherwydd trwy hyn rhoddir rhyddid a dewrder yn meddwl a chalon dyn; a thrwy hyn gwelir fod bod yn grefyddol yn ystyr ddyfnaf y gair yn angen sydd yn codi o waelod ei natur, ac fod diwalliad yr angen hwn yn agosach ato nag y meddyliodd erioed o'r blaen. Bellach â ati o ddifrif i sylweddoli amcanion penaf ei fywyd, ac i godi ei lef—YN EISIAU—DIWYGIAD NEWYDD.

COLOFN Y PLANT.

ARWYDDAIR.—*"Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna a'th holl egni."*

ICH DIEN.

Yr ydych, yn ddiau, wedi sylwi ar y geiriau "Ich Dien" ar arfau Tywysog Cymru. Maent yn swnio'n debyg i'r geiriau Cymraeg, "eich dyn," ac y mae llawer yn barod i feddwl mai dyna beth ydynt. Ond nid felly. Geiriau Germanaidd ydynt, yn golygu "yr wyf yn gwasanaethu." Dywedir mai fel y canlyn y daethant i gael eu defnyddio fel arwyddair Tywysog Cymru.

Yn amser Edward III, ymladdwyd brwydr waedlyd ar faes Crecy yn Ffrainc, rhwng byddin y wlad hono a byddin Lloegr. Yr oedd gan Edward fab, a elwid y Tywysog Du, yr hwn nid oedd ar yr adeg ond pymtheg oed. Cymerodd Edward y Tywysog Du gydag ef i Ffrainc y tro hwn, ac er ei fod mor ieuanc rhoddodd arweinyddiaeth y fyddin Saesneg iddo ef, a chiliodd Edward ar y naill du i wylied y frwydr yn ddirgelaidd.

Ymladdwyd un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd y mae genym hanes am dani, ac er gwaethaf ieuenctyd eu harweinydd enillodd y Saeson fuddugoliaeth lwyr ar y gelyn.

Ar ol y frwydr aeth Edward a'i fab dros y maes lle'r oedd y meirw yn gorwedd yn dewfrith. Daethant i fan lle'r oedd tri dyn, ar ben un o'r rhai yr oedd coron. Y brenhin John, o Bohemia ydoedd, yr hwn, er ei fod yn ddall, oedd wedi dod i gynorthwyo y Ffrancod i orthrechu y Saeson. Yn ei ymyl yr oedd ei faner, ar yr hon yr oedd tair pluen wedi eu paentio, a'r geiriau Germanaidd, "Ich Dien" yn argraffedig arnynt.

Gafaelodd y brenin Edward yn y faner, ac estynodd hi i'w fab fel gwobr am ei ddewrder, a dywedodd, "bydded hon dy arwyddair o hyn allan; nid oes arwyddair mwy ardderchog posibl i ddyn ieuanc," a byth oddiar hyny, mae'r geiriau hyn yn argraffedig ar arfau Tywysog Cymru.

"YR WYF YN GWASANAETHU."

Un tro, yr oedd bachgenyn deuddeg oed yn eistedd wrth y tân ar yr aelwyd gartref, yn nghwmpeini ei fam. Yr oedd yn brysur yn troi dail llyfr oedd wedi ei fenthyca o lyfrgell yr ysgol ddyddiol, a gofynai gwestiynau i'w fam fel yr elai yn y blaen, ac y delai ar draws y darluniau prydferth oedd yn y llyfr. O'r diwedd, daeth at ddarlun o blu Tywysog Cymru, ar y rhai yr oedd y geiriau uchod, "Ich Dien," yn argraffedig.

"Mam," gofynodd y plentyn, "beth yw'r darlun hwn?" Gwnaeth hithau ei goreu i ddweyd wrtho beth ydoedd.

"Ond beth yw'r ddau air yma sydd ar y darlun?" gofynodd drachefn.

Eglurodd hithau wrtho beth oedd eu hystyr; ac fel y dywedodd Edward III wrth ei fab, y Tywysog Du, felly y dywedodd hithau wrth yr un bychan yn ei hymyl, "Nid oes arwyddair gwell na hwn yn bosibl. Os gwnei dy hun yn wasanaethgar, daw anrhydedd i'th ran."

Ar ol hyn bu'r plentyn yn ddystaw am ychydig amser, fel pe mewn synfyfyrdod. Yna gofynodd drachefn, "sut y galla' i fod yn wasanaethgar?"

Dywedodd hithau wrtho y gallai gael cyfle i fod yn wasanaethgar bob

dydd ; ac er nad oedd ond ieuanc, eto gallai wneud rhywbeth. Yr oedd yn cyd chwareu bob dydd a phlant nad oeddynt yn cael un esiampl na hyfforddiant yn eu cartrefi i'w tywys i'r ffordd dda, nac i'w dysgu i garu Duw a dyn. Dywedodd wrtho y gallai ddechreu bod yn wasanaethgar trwy fyned at y rhai hyn a cheisio ganddynt fyned gydag ef i'r Ysgol Sul, ac yna, fel y delai yn henach, delai'r cyfleusderau i fod yn wasanaethgar yn fwy aml.

Diweddodd yr ymddyddan rhyngddynt yn y fan hon. Ond nid aeth yr hyn a ddywedodd ei fam wrtho allan o feddwl y plentyn. Enw'r plentyn oedd Willie. Y Sul canlynol yr oedd gan athraw y dosparth y perthynai Willie iddo amryw ysgolheigion newydd.

Yr oedd yr athraw yn ddyn ieuanc amyneddgar ac addfwyn ei dymer, ac yn gwybod y ffordd i enill a chadw serch plentyn, ac felly yr oedd y ddau yn cydweithio yn hwylus. Pe byddai'r athraw yn dueddol i fod yn anhynaws a chaled byddai gwaith Willie yn llawer mwy anhawdd. Ond yn yr achos hwn, yr oedd un yn casglu a'r llall yn cadw.

Parhaodd y dosparth i gynyddu, a daeth yr ysgol yn fuan yn fwy blodeuog nag y bu erioed. Ond ni ddaeth neb i wybod am flynyddau beth oedd wedi achosi'r diwygiad.

A wna rhai o'n darllenwyr ieuainc gario allan yr awgrym gynwysir yn y stori uchod? Yn mhob cymydogaeth ceir rhai plant na chânt un anogaeth i fynychu nac ysgol Sul nac addoliad, a'r rhai na chânt, mewn canlyniad, yr un hyfforddiant i fod yn blant da.

GALL POB UN FOD YN WASANAETHGAR.

Yr oedd boneddwr unwaith yn teithio ar hyd heol yn araf, yn dysgwyl am afonig, neu ffynon, neu dŷ, lle y gallai gael dwfr i'w geffyl blinedig a sychedig. O'r diwedd, daeth i olwg ffermdy, o'r hwn y gwelodd fachgenyn deg neu ddeuddeg oed yn dod allan i'r heol, gyda llestr yn ei law, ac yn sefyll o flaen y teithiwr a'r anifail.

"Beth wyt am gael, machgen i?" gofynodd iddo.

"A hoffech gael dwfr i'ch ceffyl, syr?" atebai'r bachgenyn.

"Hoffwn, yn wir ; yr oeddwn yn dechreu teimlo yn bryderus lle y cawn ef."

Ni feddyliodd y boneddwr lai nad amcan y bachgen oedd enill ychydig geiniogau yn y ffordd hon ; ac felly, pan ar ymadael, estynodd iddo ddernyn bychan o arian, a synodd yn fawr pan y gwelodd fod y bachgen yn gwrthod ei dderbyn.

"Hoffwn pe baet yn ei dderbyn," meddai'r boneddwr wrtho, gan edrych arno o ddifrif ; a sylwodd hefyd am y tro cyntaf fod y bachgenyn yn gloff.

"Yn wir, syr, nid oes arnaf ei eisieu ; nis gallaf wneud llawer o ddaioni i eraill ; yr wyf yn gloff, ac y mae fy nghefn yn wan ; a dywed fy mam wrthyf, gan nad pa mor lleied o ddaioni all dyn wneud, fod Duw yn hoffi yr ychydig hwn lawn cymaint a phe bawn yn gallu gwneud rhagor ; a hyn yw'r cwbl allaf fi wneud dros eraill. Chwi welwch, syr, fod wyth milldir rhwng y lle hwn a'r dwfr agosaf ar ymyl y ffordd, ac felly, ar dywydd twym fel hyn, mae pob ceffyl ddaw o'r cyfeiriad yna yn sicr o fod yn sychedig."

Edrychodd y teithiwr i lygaid y bachgenyn oedd wedi ei feddianu gan y fath awydd i fod o wasanaeth i eraill ; ac wrth ymadael nis gallai gadw'r dagrau rhag llanw ei lygaid wrth feddwl am y bregeth oedd wedi ei thraddodi yn ei glyw mor ddiniwed ac anisgwyliadwy.—*Allan o "Short Stories," y Parch. W. C. Bowie.*

At Ein Darllenwyr.

I. D.—Da genyf ddeall fod y golofn yn eich boddio. Diolch am

eich awgrymiad. Gobeithiaf wneud defnydd o hono yn fuan.

Dyma'r pumed gwaith i'r golofn ddod ger eich bron. Nid yw yr hyn ddymunwn iddi fod, ond mae genyf le i gredu fod llawer o'n plant yn edrych yn mlaen yn awyddus am dani bob mis. Yr wyf am ei gwneud yn well, a dymunaf wneud y cais a ganlyn i bob plentyn sydd wedi darllen y golofn o'r dechreu : "*Prynwch Post Card, ac ysgrifenwch arni unrhyw awgrymiad ellwch feddwl am dano i'w gwneud yn well. Rhoddwch eich enw priodol.*

Y Gofyniadau am Mai.

1. Pwy oedd y merthyr Cristionogol cyntaf?

2. Yn mha le y ffurfiwyd yr Eglwys Gristionogol gyntaf?

3. O dan ba amgylchiad y defnyddiodd Petr y geiriau, "yr wyf yn deall mewn gwirionedd nad yw Duw dderbyniwr wyneb," &c.

Nodyn.—Pob gohebiaeth ar gyfer y golofn hon i'w hanfon i'r *Parch. D. Evans, Cribyn, Llanybyther.*

Y CWRDD CHWARTEROL.

Cynhaliwyd ef ar ddyddiau Mercher ac Iau yn wythnos y Pasg, yn Caeronen, ger Llanbedr, Ceredigion. Er mwyn cyrhaedd yno, bu raid i rai o'r gweinidogion gychwyn yn fore. Ar ol taith yn agos o gan' milldir, darfu i ysgrifenydd y llinellau hyn gael ei hun rhwng tri a phedwar o'r gloch dydd Mercher yn ngolwg Llanbedr, y man agosaf y gallai'r trên ei gludo. Un o'r gwrthrychau cyntaf sydd yn tynu sylw dyn wrth agoshau at y dref yw yr Eglwys Undodaidd adeiladwyd mor ddiweddar a'r flwyddyn 1875—1876. Yn nglŷn a'r hon mae hanes trist erbyn hyn yn gysylltiedig. Oherwydd ryw ddiffyg yn y gwaith, mae yr adeilad yn bygwth syrthio i'r llawr. Mae wedi cael ei gondemnio eisoes fel yn beryglus, a chynhelir yr addoliad er ys tipyn o amser bellach yn yr ysgoldy. Yn ngwyneb llawer o adddewidion gwerthfawr o gynorthwy mae y pwyllgor wedi penderfynu ail-adeiladu ar unwaith ; ac yma mae dau beth yn awgrymu ei hunain i mi : (1) Y dylai y pwyllgor y tro hwn i ofalu sicrhau gwasanaeth *architect* a fydd yn deall ei waith ; (2) Y dylai'r Gymdeithas Undodaidd yn Llundain, os ceisir ganddi gyfranu, gael gweled y *plans* yn mlaen llaw. Cyfrifir y bydd y draul oddeutu £1,500, yr un ffugr a'r hen adeilad. Ffurfiwyd yr Eglwys yma yn 1876, a'r gweinidog presenol, y Parch. R. C. Jones, yw yr unig weinidog sydd wedi bod arni, ac mae wedi gwneud gwaith da er gwaethaf llawer o ddylanwadau gwrthwynebol. Yn Llanbedr mae Coleg Dewi Sant a llywodraethir y dref gan yr yspryd Eglwysig ; eto mae'r Eglwys Undodaidd yn fawr a blodeuog a'r gweinidog yn boblogaidd. Mae wedi bod yn aelod o'r Bwrdd Ysgol am bedair-ar-hugain o flynyddau ; mae yn aelod o'r Cynghor Trefol yn gystal a Bwrdd y Gwarcheidwaid. Yr oedd yn Llywydd y Gymdeithas Undodaidd Gymreig yn 1899. Yn ychwanegol at yr Eglwys yn Llanbedr mae Caeronen hefyd dan ei ofal oddiar 1871. Cyferfydd a ni yn yr orsaf, a chymer ni oll—gweinidogion a dirprwywyr—i'w dy i gael lluniaeth. Yn mhen ryw awr yn ddiweddarach, yr ydym yn symud eto, mewn pump o gerbydau, i fyny i'r wlad yn awr, ar lanau y Teifi. Wrth deithio yn mlaen mae

dygwyddiadau y gorphenol pell yn ymwthio i'n cof. Onid ar hyd y ffordd hon y teithiai Archesgob Baldwyn wyth canrif yn ol pan ar ei ymweliad adnabyddus a Deheudir Cymru? A'r hen fynachod cywrain hyny ddarfu adeiladu Ystrad Fflur, onid hwn oedd y llwybr y trafaelent hwy arno? A beth am Harri Tudur, pa ffordd yr elai ef pan yn myned i'r gâd o Aberdaugleddyf i Faes Bosworth, ac oddi yno i orsedd Prydain?

Ond dyma Caeronen, ac mae llinell ein meddwl yn cymeryd cyfeiriad newydd. Mae hon yn un o'r Eglwysi Ymneillduol henaf yn y wlad, ac mae ei hanes boreuol yn myned i golli yn niwl y gorphenol. Yr ydym yn gwybod fod un o'i gweinidogion wedi marw mor bell yn ol a 1688. Oddiar hyny mae yr Eglwys wedi pasio trwy lawer o droion; ac nid y lleiaf dyddorol ydyw y cyfnewidiadau yr aeth trwyddynt mewn meddwl crefyddol o Uwch-Galfiniaeth i lawr hyd at Undodiaeth ddiweddar. Pan oedd Timothy Davies (brawd i un o brifathrawon Coleg Caerfyrddin) yn weinidog, rhoddodd wahoddiad i'r Parch. Dafydd Llwyd, Brynllefrith, a fu farw yn 1779 (un o hynafiaid y Parch. Jenkin Lloyd Jones, Chicago) i bregethu yn ei le; ac am iddo ddweyd yn ei bregeth, y gallasai hyd yn nod Judas gael ei achub oni bai ei bechodau ei hun, pasiwyd penderfyniad gan yr Eglwys nad oedd Mr. Lloyd ddim i gael ei wahodd i bregethu yn Caeronen ond hyny.

Adeiladwyd y capel presenol er ys mwy na haner can' mlynedd yn ol; mae rhan o'r hen un yn aros eto rhyw ychydig bellder o'r heol ar y tyddyn a roddodd iddo yr enw Caeronen. Aeth rhai o'r dieithriaid i ymweled a'r hen gapel, a chawsant eu talu yn dda am y drafferth trwy weled fod rhan o'r hen oriel yn aros o hyd.

Daeth nifer dda o weinidogion a myfyrwyr yn nghyd, ond nid cymaint ag a ddisgwylid. Yr oedd rhai wedi eu hatal gan amgylchiadau lleol megys y Parchn. T. A. Thomas, Llandyssul; D. Rees, Pentre, a J. E. Jenkins, Dowlais. Cymerodd y rhai canlynol ran yn un o'r pedwar gwasanaeth trwy ddarllen a gweddio neu bregethu:—J. Davies, Alltplacca; J. Hathren Davies, Cefncoed; W. James, B.A., Llandyssul; T. J. Jenkins, Gellionen; E. Gwilym Evans, B. A., Coleg Manchester (gweinidog etholedig Chesterfield); E. E. Jenkins, Coleg Manchester; E. O. Jenkins a Simon Jones, Home Missionary College; E. J. Williams, Coleg yr Iesu, Rhydychen. Traddodwyd pregeth y Gymdeithas bore dydd Iau, gan R. J. Jones, M.A., Aberdar, yr hwn hefyd a bregethodd yn yr hwyr. Yr oedd yn bresenol hefyd—D. Evans, Cribyn; Lewis Williams, Rhydygwin; J. Islan Jones, Coleg yr Iesu; J. Evans a David Davies, Home Missionary College, ac wrth gwrs, gweinidog parchus y lle.

Yr oedd y gwasanaeth cyntaf wedi ei gyhoeddi am chwech nos Fercher, ond gan fod y gwlaw yn disgyn mor ddyfal, nid oedd yr argoel am gynulleidfa luosog yn ddysglaer iawn. Ond byddwn amyneddgar a chawn weled. Sefydliad Cymreig hollol ydyw'r cyfarfod mawr pregethu. Medd y Cymro duedd ac awch at bregethau nad oes gan y Sais cyffredin un syniad am danynt; a phe byddai raid iddo wrando ar gyfres o bregethau tebyg i'r hon a gawsom yn Caeronen, byddai perygl iddo ddioddef oddiwrth ddiffyg treuliad am weddill ei fywyd. Ond mae y Cymro yn ymwynfydu mewn pregethau. Ei hyfrydwch yw myned dros y rhai rhyfedd y mae e' wedi glywed yn ei oes. Nid yw yn gofalu am yr areithiau sydd wedi eu dwyn i fewn yn ddiweddar i rai o'n heglwysi.

Cof genyf am forwyn yn nhy fy nhad oedd wedi bod mewn un o'r "cyfarfodydd mawr" yn mhell o gartref, ac yn dweyd ar ol dychwelyd ei bod wedi gwrandaw ar un-ar-ddeg o bregethau ac wedi eu mwynhau yn ddibendraw. Pan y gofynwyd iddi, cafwyd allan nad oedd yn cofio dim, hyd yn nod pob testyn wedi myned i

golli. Ond nid iawn fyddai casglu nad oedd dim wedi ei adael o'r holl bregethau. Nid yw dylanwad pregeth i'w gyfyngu i'r hyn a gofir yn feddyliol. Mae yna ddylanwad moesol nas gellir ei werthfawrogi oddiar safbwynt meddyliol, a'r hwn yr ydym yn rhy dueddol i anghofio. Rhoddodd y forwynig hono i Mr. Spurgeon fel prawf o'i hadenedigaeth, nid y ffaith ei bod yn cofio'r bregeth—ni chofiai ddim o honi—ond y ffaith ei bod hi yn awr yn ysgubo o dan y *mat*. Mae pregeth yn werthfawr yn ol y gallu sydd ynddi i godi dyn i awyrgylch uwch, ac yn y modd hyny i gynyrchu bywyd purach a mwy teilwng.

Yn Caeronen cawsom bedwar gwasanaeth gyda dwy bregeth yn mhob un o honynt—wyth i gyd—heblaw cyfarfod y Pwyllgor a gymerodd le bore dydd Iau am naw. Yn absenoldeb y Llywydd—Mr. Lewis N. Williams, Aberdar—cymerwyd y gadair gan weinidog y lle. Yn mysg pethau eraill penderfynwyd : (1) Fod yr ail ran o Wersi yr Ysgol Sul ar Efengyl Luc i gael ei pharotoi a'i chyhoeddi ar unwaith. (2) Fod "Apel y Ganrif Newydd," a geir yn argraffedig yn y rhifyn hwn, i gael ei gymeradwyo a'i gefnogi. (3) Fod y Parch. R. C. Jones i gynrychioli y Gymdeithas yn nghyrddau mawr y Sulgwyn yn Llundain.

Yr oedd cynulleidfaoedd lluosog yn mhob gwasanaeth ; hyd yn nod nos Fercher yr oedd y capel yn gysurus o lawn, a phob cyfarfod yn ymddangos yn well nad un o'i flaen. Yn y gwasanaeth diweddaf nos Iau, yr oedd y lle yn orlawn fel y bu raid cael meinciau o'r ysgoldy. Daeth y gweinidogion yno yn gryno gyda rhai eithriadau ; ac yr oedd nifer y myfyrwyr yn bresenol yn rhoddi addewid y llenwir ein pwlpudau gweigion heb fod yn hir. Cerddai ryw naws hyfryd drwy bob gwasanaeth ; y gweinidogion yn yr hwyl oreu, a'r pregethau, y rhan fwyaf o honynt, o deilyngdod mawr. Yr oedd y canu o'r dechreu i'r diwedd yn rhoddi boddlonrwydd neillduol ; ac yn y cyfarfod diweddaf pan yr unai yr holl dorf—fel y dylent bob amser—cawsom ryw syniad am yr ysprydoliaeth hwnw sydd yn codi pobl oddiar eu traed.—[O'r *Christian Life* gan mwyaf.]

CONGL YR AWEN.

Enw'r buddugol am benillion "Gwaith" yn rhifyn Ebrill yw, Mr. D. R. Davies, C M., Cofadail Board School, Llanrhystyd.

Yr ydym, yn ol ein haddewid, wedi anfon iddo gopi o "Oriau'r Hwyr."

"John Bydir Lewis." Diolch am eich penillion synwyrol.

"Hefin Harries." Yr ydych yn cwyno am y gamdriniaeth dybiwch eich bod yn gael ar law Golygydd newydd y golofn ; ond mewn difrif nis gallwn gyhoeddi eich penillion. Dyma benill gymeraf ar antur er mwyn i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD gael rhoddi barn ar eich talentau :—

"Haul Cyfiawnder" hefyd gododdI'n hanwybod addysg fflwch.Yma'r gair a ddaeth mewn amserYn wellhad i blant y llwch.Un fil naw cant ac un hefydOedd ein Harglwydd Iesu GristI deyrnasu yn mhob calon"Ddawn" anrhaethol na bo'm drist.

"Ystradffin." Diolch am eich cyfieithiadau swynol. Y tro hwn hyderaf y bydd gofod i "Ni chollir dim." Nid yw'r gwreiddiol genyf wrth law, ond gwn y rhaid fod y cyfieithiad yn dda. Y mae *discord* y llinell hon, mi dybiaf, yn fwriadol, ac yn darawiadol iawn—

"Drwy garegog bechod erch."

Gallwn feddwl fod genych glust da i fiwsig barddoniaeth, a'ch bod yn gwybod yn gywir pa linellau sydd i fod yn felodaidd a pha rai ddylai fod yn anghydseiniol.

"G.J.D." Heb gael enw a chyfeiriad eich "cyfaill" nid yw yn unol a rheolau'r cylchgrawn hwn gyhoeddi dim o'i eiddo.

S.

DYLEDSWYDD.

Os am wel'd y byd yn ddedwydd,
Gwnawn ein gorau nos a dydd
I waredu o'u henbydrwydd
Gaethion blys, a'u gwneud yn rhydd.
Rho'wn i'r gwan ein llaw a'n gwenau
Ar y daith wrth fyn'd yn mlaen ;
Cawn ein talu a rhosynau
Ddaw i dyfu ar y drain.

Os am wel'd y byd yn gwella
Hyn a ddylai pob un wneud ;
Rhoi meddyliau drwg yn mhella',
Peidio byth wrth neb ei ddweyd.
Os i'r meddwl ddaw yn aflan,
Nwydau drwg a gwael eu llun,
Boed i'r fflam i losgi allan
Yn ei fynwes ef ei hun.

Os am wel'd y byd yn gallach
Bydded i ni ddechreu 'nawr ;
Llanwn gist y cof yn llawnach
O ragoraf bethau'r llawr.
Byddwn byw o hyd i ddysgu,
Mynwn ddysgu sut i fyw ;
Anwybodaeth sy'n cymysgu
Cwpan chwerwaf dynolryw.
Llaw fach wan fu'n planu'r fesen
Ryw ddiwrnod yn y tês ;
Ond bu cewri dan y dderwen
Yn cysgodi rhag y gwres,
Ond i bob un wneud eu oreu,
Hau yn iawn a thrin y tir,
Nefoedd fach o fêl a blodau
Ddaw i'r ddaear cyn bo hir.

JOHN BYDIR LEWIS.

Merthyr.

NI CHOLLIR DIM.

(*Lewis Morris*—"*Nothing Lost.*")

[CYFIEITHIAD.]

Eira llyneddd, p'le mae'n awr,
Rhosyn haf, pa le mae'i sawr—
Pwy a wyr ar ddaear lawr ?

Neu pa le mae'r gynes gân
Gynodd ynof fflam o dân
Gynt, yn mynwes ie'ngctyd glân ?

P'le mae cariad rhai a fu'n
Suo'r baban ar eu glin
Heno'n cysgu eu holaf hun ?

Pa le mae'm boreuol ffydd
Cyn i'm meddwl fyn'd yn rhydd,
Cyn i'r gwîr wel'd goleu dydd ?

Gwlaw y gwanwyn eira rydd,
Rhosyn eto'r rhosyn fydd,
Llona'r gân ryw ysbryd prudd.

Tardda eto ffynon serch
Yn nghalonau mab a merch
Drwy garegog bechod erch.

Gynt os cul eu ffydd yn Nuw,
Heddyw dyfnach, purach yw,
Ar aeddfetach dir y byw.

Chollir dim o'r hyn a fu
Er mil oesau rhyngom sy'
A gorphenol bethau lu.

Eira, rhosyn, cariad, ffydd,
Welir eto yn eu dydd,
Llechu maent dan ddwyfol gudd.

YSTRADFFIN.

Dathlu dechreu y Ganrif Newydd.

APPEL at Undodiaid Cymru i roddi eu help i gasglu o leiaf DAIR MIL o Bunnau tuag at gynnal a lledaenu Undodiaeth yn Nghymru.

Yr ydym wedi edrych yn y blaen gyda dyddordeb gwresog at y Ganrif Newydd, ac wele ni bellach wedi cael y fraint o weled ei dechreu. Credwn fod pethau mawrion yn gorwedd yn guddiedig yn ei mynwes, a theimlwn fod galw taer ar bawb sydd yn caru llwyddiant crefydd, ac yn dymuno ei gweled yn cymeryd gafael ddyfnach yn mywydau ein cydwladwyr, i wneuthur eu rhan yn ffyddlawn.

Fel Cristionogion Rhyddfrydig yn Nghymru, tra'n cydnabod yn ddiolchgar ffyddlondeb y rhai sydd wedi bod o'n blaen, nis gallwn lai na meddwl y dylem, gyda'n mantesion amgenach, a'n calonau yn y gwaith, a chydag ymdrechion mwy unfrydol, ddysgwyl mesur mwy fyth o lwyddiant.

Y mae hen gredoau y canol-oesoedd megys yn ymdoddi o flaen yr yspryd mwy dyngarol sydd heddyw yn lefeinio teimlad a meddwl a dyhead goreu dynion ; ond ofnwn tra fyddo hyn yn cymeryd lle, fod yna berygl i'n pobl ieuainc ymdori'n rhydd oddiwrth angorfeydd boreu oes, a chael eu hunain yn ddrylliau (*wrecked*) ar greigiau erchyll anffyddiaeth noeth.

Ac felly yr ydym, fel Undodiaid, yn edrych ar y Cyfnod Newydd fel cyfleusdra arbenig wedi ei estyn ini, i ddwyn ein tystiolaeth i'r Angen hanfodol am grefydd sydd yn egwyddor fywydol ein dynoliaeth. Ffydd grefyddol fyw yw yr unig beth a ddichon ein dal i fyny yn ngwyneb y pechod a'r trueni, y profedigaethau a'r siomedigaethau, a gyfarfyddwn yn nhroion sydyn a dyrys ein bywyd daearol.

Manteisiwn gan hyny, ar y cyfleusdra hwn i wneuthur ein Appel Cyffredinol cyntaf am help i gryfhau ac i ledaenu egwyddorion ein ffydd yn Nghymru. Taer erfyniwn ar bob eglwys, a phawb Undodiaid, yn wrrywod, benywod a phlant, i gymeryd y mater i fyny a chydweithredu yn galonog fel y gallwn sicrhau i'r mudiad y llwyddiant mae yn deilyngu. Carem awgrymu fod pob eglwys yn mynu llyfr, lle nad oes un yn barod, ac yn gosod ynddo enw pawb o bob oedran sydd yn dal unrhyw gysylltiad a'r achos, gyda'r swm y maent yn gyfranu. Beiddiwn ddweyd y bydd y llyfr hwn ar ddechreu'r unfed ganrif ar hugain y llyfr mwyaf dyddorol yn perthyn i'r eglwys.

O'r braidd y gellir dweyd ein bod erioed hyd yma wedi gwneuthur un cais i gyd gyda'n gilydd i gysylltu ymdrechion ein gwahanol eglwysi ; er fod yn rhaid i ni addef fod llawer o waith da wedi ei gyflawni yn ngwyneb lluaws o anhawsderau. Yn ystod y deng mlynedd diweddaf, y mae amryw achosion wedi eu cychwyn lle nad oedd Undodiaeth yn cael ei chynrychioli o'r blaen. Dyna ddau gapel yn y Rhondda wedi eu hadeiladu ar draul o ryw £1,500, ac o'r cyfryw y mae tua £800 yn aros yn ddyled. Costiodd Trebannos tua £1,300, ac y mae £400 yn aros o ddyled. Y mae genym gynulleidfa yn Mhontypridd er ys yn agos deng mlynedd, ond heb gapel, ac y mae'r achos yn dyoddef yn dost o herwydd hyny. Y mae'r achosion hyn oll mewn lleoedd poblog, a theimlwn ein bod dan rwymau neillduol i wneuthur ein goreu i'w gosod ar y ffordd i sicrhau y llwyddiant hwnw a gredwn sydd yn eu haros.

Yn awr, gyfeillion, dyma'r alwad, dyma'r gwaith, ac yr ydym gyda phob hyder yn appelio atoch i wneuthur eich rhan, fel y byddo'r mudiad presenol yn llwyddiant sicr ; a chredwn y ceir gweled yn y dyfodol cynar ymddeffroad ysprydol nerthol yn eglwysi Rhyddfrydol ein gwlad.

Ydym, yr eiddoch yn ffyddlon,

R. JENKIN JONES, Cadeirydd ; L. N. WILLIAMS, Llywydd C.U.D.C. ; H. WOOLCOTT THOMPSON, Llywydd Cymdeithas C.U.D.D. ; DAVID J. JONES, Trysorydd.

GEO. CARSLAKE THOMPSON ; JAMES E. JENKINS ; J. HATHREN DAVIES, Aelodau'r Pwyllgor.

D. J. WILLIAMS, Ysgrifenydd Mygedol.

Pob taliadau i'w hanfon i David J. Jones, Esq., wedi eu cyfeirio "29, Hirwain Road, Aberdare ;" *Cheques* wedi eu croesi "Lloyd's Bank, Limited."

COFNODION Y MIS.

RHYDYGWIN. — Dydd Gwener y Groglith caed y Tê Blynyddol i'r Ysgol Sul yn y lle uchod. Daeth aelodau yr Ysgol Sul yn nghyd yn gryno, a llawer o blant ereill o'r gymydogaeth. Digwyddodd y prydnawn droi allan yn hynod ffafriol yn nghanol tywydd garw. Y gwragedd caredig a roddasant y wledd eleni oedd Mrs. Howells, Dolbeudy ; Mrs. Davies, Y Felin ; a Mrs. Davies, Post Office. Yr oedd y darpariaethau yn hynod flasus, a'r gwragedd a'r merched yn eu hwyliau goreu yn gweini wrth y byrddau. Yn yr hwyr, caed Cyfarfod Adloniadol. Cadeiriwyd gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn fedrus gan Mr. Enoch E. Jenkins o Goleg Rhydychen. Arweiniwyd y canu, fel arfer, gan Mr. Hughes, Rhydyfydir. Yn ychwanegol at yr hyn gafwyd gan aelodau y lle, cawsom unawd gan yr arweinydd a chan Mr. J. Islan Jones, ac adroddiad gan Mr. Dan Davies, Blaencwrt. Yr oedd yr oll o waith y cyfarfod i fynu a'r hyn y mae yn arfer fod. Nid oedd angen gofyn i neb ei farn am y canu a'r adrodd. Yr oedd y distawrwydd a'r gwrandawiad astud a roddwyd yn tystio fod pawb yn cael eu boddioni.

DOWLAIS. — Dymuna pwyllgor y *Quilt Scheme* wrth ddiolch yn wresog i'r cyfeillion sydd wedi dychwelyd y *Squares* a'u cyfraniadau, ofyn yn garedig i'r rhai sydd heb eu hanfon, i ymdrechu gwneuthur felly mor fuan ag sydd bosibl.

CYFARFODYDD CYMDEITHAS UNDODAIDD LLUNDAIN.—Carem alw sylw ein darllenwyr at hysbysiad o'r cyfarfodydd uchod ar ddiwedd y rhifyn hwn. Y maent i fod yn gyfarfodydd neillduol ar ddechreu'r ganrif. Gan fod llawer o'r gweinidogion Cymreig, a rhai lleygwyr yn bwriadu bod yn bresenol, carem ddyweyd y ceir tocyn myn'd a d'od am bris tocyn a chwarter. Bydd rhaid danfon yn mlaen llaw at Mr. Bowie am *Voucher* cyn gellir cael y tocyn rhad hwn. A fydd y rhai sydd yn bwriadu bod yn bresenol garediced ac ymohebu ag Arthur Thomas, Llandyssul ?

CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Dymunaf hysbysu'r cantorion y cynhelir y *Rehearsals* nesaf ar y 12fed o Fai, yn Capelygroes am ddau, ac yn y Llwyn am chwech. Hefyd carwn ddwyn i ystyriaeth y gwahanol adranau y priodoldeb o gael ymborth wedi ei barotoi mewn rhyw fan cyfleus, ar ol gorphen canu yn Aberystwyth. Cofus gan y rhai fuont yn Abertawe am y parotoadau helaeth wnawd yno, a'r bwydydd rhad gafwyd yn y Neuadd gyfagos ; a dichon y buasai yn dderbyniol gan y mwyafrif pe cawsent le cyffelyb ar y 10fed o Fehefin. Os anfonir i mi amcangyfrif o nifer y cantorion o'r gwahanol eglwysi gwnaf y trefniadau gofynol er sicrhau iddynt luniaeth ar ddydd yr wyl mewn lle cyfleus.—G.T.

CAPELYGROES. — Cynhaliwyd yr Wyl Dê flynyddol yn y lle uchod ar y 1af o Ebrill. Cafwyd cyfarfod anarferol o ddymunol a llwyddianus o'r dechreu i'r diwedd.

Y GYMDEITHAS UNDODAIDD GYMREIG.—Derbyniwyd a ganlyn fel tanysgrifiadau a chasgliadau am y flwyddyn 1900—1901:—Parch. Lewis Williams, Rhydygwin, 5s. ; E. J. Thomas, Alexandra rd., Abertawe, 10s.6c.; Casgliad yn Caeronen, 16s.6c.; Mrs. Davies, Trebanne, Cellan, 5s. ; Mrs. Davies, Wern cottage, 5s. ; Miss Davies, eto, 5s. ; Miss Jones, eto, 5s. ; Casgliad yn Gellionen a Trebannos £1 9s. 6c. ; D. Davies, Gellionen ganol, 2s. 6c. ; Casgliad yn Alltyplacca, £1 ; Parch. J. Davies, 5s. ; Casgliad yn Capel-y-Bryn, 15s. 6c. ; Thomas Jones, Arwerthwr, &c., 10s. ; D. J. Davies, B.A., Blaencwrt, 2s. 6c. ; Casgliad yn Dowlais, 8s. 6c. : J. Davies, Maes-yr-hedydd, Llanfihangel-ar-arth, 5s. ; Casgliad yn nghyfarfod Chwarterol Caeronen, £1 17s. 10c. ; Casgliad yn y Graig, Llandyssul, £1 8s. 0c. 'Rwyf yn gobeithio y gwneir brys i anfon y casgliadau a'r tanysgrifiadau dyledus i fewn cyn diwedd Mai. Cymerer yr awgrym yn garedig. Bydd hyny yn hebgor llawer o drwbwl diangen i'r ysgrifenydd.—W. J.

ADRODDIAD Y CWRDD CHWARTEROL.—Bydd y rhan fwyaf o'n darllenwyr yn troi at yr adroddiad uchod gyda'r peth cyntaf. Cânt eu talu am ei ddarllen yn ofalus. Ymddangosodd gyntaf yn Saesneg yn y *Christian Life* uwchben y llythyrenau T.C.U. Ni synem na thry allan ar ol ymchwiliad mai yr un yw T. C. U. a R. J. J., a gwyr pawb pwy ydyw hwnw.—W. J.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Gobeithiwn gyhoeddi rhestr yr ymgeiswyr llwyddianus yn yr arholiad diweddar yn rhifyn Mehefin. Mae llawer o symiau yn ddyledus i'r adran am lyfrau Safon 1, 3 a 4. Bydd yr ysgrifenydd yn ddiolchgar iawn am danynt gyda hyn o rybudd. Derbyniwyd oddiwrth Ysgol Sul Trebannos, £1 13s. 6c.—W. J.

APPEL Y GANRIF NEWYDD.—Ymddengys mewn rhan arall o'r rhifyn hwn. Dymunwn alw sylw neillduol ein darllenwyr ato. Mae'n werth ei ddarllen fel gosodiad hyawdl a galluog o'r sefyllfa grefyddol yn Nghymru ar ddechreu'r ganrif, a dylai anfon ei genadwri adref at galon pob Undodwr sydd yn caru ei wlad ac yn caru ei grefydd.

MARWGOFION.

MAWRTH y 3ydd, bu farw Thomas Thomas, Wenallt-uchaf, Pencarreg, yn 80 oed. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Capelygroes y dydd Iau canlynol, ar ba achlysur y talwyd iddo y gymwynas olaf gan dorf luosog.

MAWRTH y 3ydd, Anne Davies, Wern view, Cribyn, yn 77 oed.

Claddwyd hi yn mynwent Cribyn, y dydd Mercher canlynol, pryd y gweinyddwyd gan weinidog y lle.

MAWRTH yr 17eg, Anne Evans, gwraig Benjamin Evans, 141, St. Olafs Road, Fulham, Llundain, yn 38 mlwydd oed. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i Mrs. Margaret Howells, Brynog cottage, Llanfihangel Ystrad. Yr oedd wedi colli ei hiechyd arferol er ys amryw flynyddau. Arferai ddod i aros ychydig wythnosau at ei mham bob haf i gael anadlu awyr bur y wlad, a chryfhau ei hiechyd. Daeth yr haf diweddaf yn lled wanaidd ei hiechyd gan obeithio derbyn lles, ond gwanychu wnaeth gymaint o dan effeithiau ei chlefyd, sef y darfodedigaeth, nes methu dychwelyd i'w chartref. Dydd ei hangladd, y Sadwrn canlynol, gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. L. Williams, yn y tŷ. Yna cludwyd ei chorph i orwedd yn mynwent Eglwys y Plwyf. Gadawodd briod a thair merch, mam a dau frawd, a phump chwaeri alaru arei hol.

MAWRTH 18, yn 72 oed, Mrs. Anne Rees, 5, Clifton terrace, Llandyssul. Y dydd Iau canlynol cludwyd ei gweddillion i gladdfa Pantdefaid, i ymyl ei phriod a'i phlant, y rhai a'i blaenasant. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. T. P. Phillips (A.), T. Thomas, Y.H., ag Arthur Thomas. Yr oedd i'r ymadawedig air da gan bawb o'i chydnabod, ac ar gyfrif ei haml rinweddau, ei charedigrwydd a'i chydymdeimlad, erys ei choffadwriaeth yn fendigedig. Sul yr 21ain traddodwyd y bregeth angladdol yn Capel Seion, gan y gweinidog, lle yr oedd yn aelod. Gadawodd gymunrodd o £10 i Gapel Seion ac £20 i Pantdefaid.

MAWRTH yr 20fed, yn 75 mlwydd oed, Thomas Jones, Ffynondalis, Dihewyd. Yr oedd yr ymadawedig yn ei iechyd arferol pan yr aeth allan o'i dŷ y dydd uchod. Ond yn mhen ychydig fynudau cawd ef ar yr heol ychydig o'i dŷ a'r elfen fywiol wedi diflanu. Yr oedd yn hoff iawn o ddarllen, ac yn dal sylw manwl ar arwyddion yr amserau, a phob amser yn medru rhoddi atebion parod dros yr opiniynau oedd ef wedi ffurfio iddo ei hun. Ar ddydd ei angladd, y Sadwrn canlynol, gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, a chladdwyd yn mynwent Eglwys Ciliau. Gadawodd ddwy ferch a pherthynasau ereill i alaru ar ei ol.

MAWRTH 27ain, bu farw Annie Jones, Hendryd, plwyf Llanbedr, yn 20 oed, ar ol cystudd byr, ond caled. Blin iawn yw colli rhai ieuainc yn mlodau eu dyddiau, yn enwedig pan y maent mor ddefnyddiol mewn cartref ac eglwys, ac o rodiad mor ddymunol a chywir ag ydoedd ein cyfeilles ieuanc ymadawedig. Teimlai ddyddordeb neillduol yn yr achos yn Capelygroes, a pharod oedd bob amser i wneud beth bynag a allai ac a elwid arni i'w wneud ; ond ei lle yno, fel ar yr aelwyd gartref, ni edwyn ddim o honi mwy. Deled rhywun i lanw ei lle eto. Dydd Sadwrn canlynol hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honi i fynwent Caeronen. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog Capelygroes, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. C. Jones. Na foed i'w thad a'i brodyr a'i chwiorydd alaru yn anobeithiol ar ei hol.

MAWRTH 29ain, yn 41 oed, David Evans, King's Arms, Llandyssul, a mab i'r diweddar John Evans, Crosshands, o'r un lle. Claddwyd ef y dydd Mercher canlynol yn Pantdefaid, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. Arthur Thomas ; Thomas Thomas, Y.H., a T. P. Phillips, (A.). Yr oedd i'r brawd caredig hwn barch neillduol gan gylch helaeth o gyfeillion, fel y tystiolaethai y cynhebrwng lluosog gafodd, ac hefyd ar achlysur traddodi y bregeth angladdol yn Capel y Graig, gan y gweinidog, Sul yr 21ain. Yr oedd y capel yn orlawn. Iawn ydyw crybwyll ddarfod i'r Annibynwyr beidio a chynal gwasanaeth eu hunain yr hwyr hwn, a daethant gydag amryw eraill i'r gwasanaeth coffadwriaethol. Nodded y nef fyddo dros y weddw a'r ddau blentyn.

COLOFN Y GOLGYWYR.

MEIRIADOGYN.—Rhoddai bleser i ni gyhoeddi erthyglau ar "Y modd goreu i ddeongli digwyddiadau rhyfedd y Beibl." Ond ar ol darlleniad gofalus o'ch erthygl gyntaf, mae'n amlwg nad ydych eto wedi meistroli'r iaith Gymraeg fel ag i fod yn alluog i osod eich meddwl allan yn eglur a dealladwy. Ymarferiad a'ch gwna yn orchfygwr. Paham na roddasoch eich enw priodol? Gobeithio y parhewch yn dderbyniwr o'r YMOFYNYDD.

CYMRO, o gymydogaeth Castellnedd, a ysgrifena atom i'n cynghori i droi o gyfeiliorni ein ffordd, ac hefyd i'n beio am "ddyfod yn mlaen a daliadau Dr. Colenso," yr hwn "fu farw dan gwmwl wrth dreio taflu anfri ar bump llyfr Moses." Ni osodwn lawer o bwys ar gynwys y llythyr hwn: ond cyfeiriwn ato yma oherwydd y dystiolaeth a ddug i'r angen o ledaeniad helaethach i'n llenyddiaeth.

DALIER SYLW.—Carem adgofio ein darllenwyr a'n dosparthwyr y bydd tâl haner blwyddyn yn ddyledus ar dderbyniad rhifyn Mehefin. O hyn allan anfoner y taliadau a'r archebion i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r YMOFYNYDD, Llandyssul.

Y Gymdeithas Undodaidd Brydeinig a Thramor.

Cymdeithas yr Ysgol Sul a Chynghor Cyffredinol yr Undodiaid.

Cyfarfodydd i Ddathlu y Ganrif Newydd yn Llundain, Mai 25—31, 1901.

DYDD SUL, Mai 26. Gwasanaeth aelodau yr Ysgolion Sul, yn Essex Hall, am 3.30. Gwasanaeth yr Athrawon yn Nghapel Little Portland Street, am 7.

DYDD LLUN, MAI 27. Cyfarfod y Gymdeithas Ddirwestol. Cadeirydd—Iarll Carlisle. Yn Essex Hall.

DYDD MAWRTH, Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas yr Ysgol Sul, am 10, yn Essex Hall. Gwasanaeth Cymundeb yn Nghapel Little Portland St., am 6.45. Gwasanaeth Undebol yn St. James' Hall, am 8.

DYDD MERCHER. Cyfarfod Busnes y Gymdeithas Undodaidd, yn Essex Hall, am 10. Conversazione yn y Royal Institute of Water Colours, yn Piccadilly, am 8.

DYDD IAU. Cynghor Cyffredinol yr Undodiaid, yn Essex Hall, am 10. Cyfarfod Mawr Cyhoeddus, yn y Westminster Town Hall, am 8.

DYDD GWENER. Cyfarfod y Cynghor Cyffredinol (parhad), am 10 a 2.

Gwahoddir Eglwysi ac Ysgolion Sul i anfon cynrychiolwyr. Bydd y Parch. W. Copeland Bowie, Essex Hall, yn falch i roddi gwybodaeth am yr holl drefniadau, *lodgings*, &c.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gomerian Press, Llandyssul.